ASHTON, JOHN (1830 - 1896), cerddor, crydd wrth ei alwedigaeth.

Enw: John Ashton
Dyddiad geni: 1830
Dyddiad marw: 1896
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor, crydd
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Cerddoriaeth
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd mewn t o'r enw Oleuddu, ger Trefeglwys, Trefaldwyn, yn 1830. Cyfarfu â damwain a'i hanalluogodd i ddilyn ei alwedigaeth ac ymunodd â'r heddlu. Cyfansoddodd lawer o donau, a cheir hwy yn *Llyfr Tonau Cynulleidfaol*, *Caniadau y Cysegr a'r Teulu*, â *Cerddor yr Ysgol Sabothol*. Ceir canu mynych ar ei dôn ' Trefeglwys,' a gyfansoddodd yn 1857. Ym *Miwsig y Miloedd* ceir cân a chytgan, ' Melys cofio'r amser gynt,' a chanig, ' Mehefin fwyn.' Yn 1874 ymfudodd i New Zealand, a bu farw yno Nadolig 1896.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Y Cerddor, Mai 1903

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: John Ashton's music book

Wikidata: Q20733351

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu